

Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Practis Deintyddol Cader,
Dolgellau

Dyddiad yr arolygiad: 24 Hydref
2017

Dyddiad cyhoeddi: 25 Ionawr 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	21
4.	Beth nesaf?	23
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	24
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	25
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	26
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	27

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Cader yn Ffordd y Gader, Dolgellau, Gwynedd, LL40 1RJ ar 24 Hydref 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y practis yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir gwybodaeth bellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod practis Deintyddol Cader yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol ar gyfer ei gleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer o feysydd y dylid eu gwella er mwyn ategu'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Mae'r practis wedi ymroddi i roi profiad cadarnhaol i gleifion
- Rhoddid digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth, a gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a dderbyniwyd
- Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus iawn yn eu swyddi, roeddent yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, ac roedd ganddynt ymrwymiad cadarn i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Roedd digon o gyfleusterau ar gael yn yr ystafell driniaeth, ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus, ac wedi'u trefnu'n dda
- Canfuom fod yr holl gemegau yn cael eu cadw'n ddiogel
- Canfuom fod y practis yn storio gwastraff yn briodol ac yn ddiogel

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Offer radiograffig
- Rhoi amrywiaeth o archwiliadau clinigol ar waith
- Dylai arwynebau'r lloriau a'r wynebau gweithio yn yr ystafell driniaeth a'r ystafell ddadheintio gael eu selio wrth yr ymylon er mwyn gwneud y gwaith o'u glanhau'n haws
- Dylai'r cyfleusterau dadheintio gydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05
- Sicrhau bod bin gwastraff glanweithiol yn cael ei roi yn y toiled neillryw

- Cyflwyno cyfarfodydd staff rheolaidd a threfnu arfarniadau staff blyneddol

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Practis sy'n cynnig triniaeth ddeintyddol breifat yn unig yw Practis Deintyddol Cader.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys un prif ddeintydd, un nyrs ddeintyddol ac un nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant.

Darperir amrediad o wasanaethau deintyddol preifat.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwnaethom wahodd cleifion i ddweud wrthym am eu profiadau wrth ddefnyddio'r practis. Roedd yr adborth a gafwyd drwy holiaduron cleifion yn gadarnhaol ac yn cadarnhau bod cleifion yn hapus gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu safbwyntiau am y gwasanaethau deintyddol a ddarperid. Cafodd cyfanswm o 13 holiadur eu cwblhau a'u dychwelyd. Roedd cymysgedd da o holiaduron gan gleifion newydd i'r practis (y sawl a oedd wedi bod yn gleifion am lai na dwy flynedd) a chleifion tymor hir yn y practis (y sawl a oedd wedi bod yn gleifion am fwy na dwy flynedd).

Ar y cyfan, roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol. Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Rhoddir gwasanaeth ardderchog/cyfeillgar iawn yma"

"Dim angen gwneud unrhyw welliannau"

"Mwy o wybodaeth am broblemau sy'n codi y tu allan i oriau"

"Byddai hylenydd deintyddol yn fuddiol"

Cadw'n iach

Roedd digonedd o wybodaeth hybu iechyd deintyddol neilltuedig ar gael, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth a allai eu cynorthwyo i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd amryw bosteri a dalenni gwybodaeth yn cael eu harddangos, a oedd yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol a gwybodaeth am iechyd y geg. Roedd arwyddion "dim ysmegu" yn cael eu harddangos yn y practis. Roedd rhestrau prisiau hefyd yn cael eu harddangos yn glir yn y dderbynfa.

Dywedodd pob claf ond dau a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad ag ef ynghylch sut i gadw ei geg a'i ddannedd yn iach.

Gofal ag urddas

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Gwelsom hefyd y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd yr holl staff yn ei ddefnyddio wrth ymdrin â chleifion.

Roedd gan y practis drefniadau i amddiffyn preifatrwydd cleifion, gan gynnwys manau i gleifion gynnal sgysiau preifat â staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu derbyn yn breifat i ffwrdd o gleifion.

Gwelsom fod y drws i'r ystafell driniaeth ddeintyddol (lle roedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'i gadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneid ynghylch eu triniaeth i'r graddau yr oeddent yn dymuno, a'i fod wedi cael gwybodaeth glir am ei driniaeth ddeintyddol, gan gynnwys yr opsiynau a oedd ar gael iddo o ran triniaeth.

Er i'r rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur ddweud bod cost unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio iddynt cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth, dywedodd tua hanner o'r cleifion wrthym nad oeddent yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Gwnaethom nodi bod gwybodaeth am brisiau ar gael i'w gweld yn y dderbynfa, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth ei gostio.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis yn cael ei harddangos o gwmpas y dderbynfa a'r man aros. Roedd gan y practis daflen wybodaeth unigryw i gleifion fynd â hi adref.

Canfuom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel i sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei hamddiffyn.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd y cleifion a wnaeth gwblhau holiadur ac a oedd yn siaradwyr Cymraeg wrthym mai dim ond o bryd i'w gilydd roeddent yn gallu siarad â staff yn Gymraeg. Dywedodd yr holl gleifion nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg a

gwblhaodd holiadur wrthym fod modd iddynt siarad â staff yn eu hiaith o ddewis.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu'n brydlon bob amser, a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai problem ddeintyddol frys ganddynt.

Roedd rhif ffôn brys ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau ar gael pe byddai angen triniaeth frys y tu allan i oriau ar gleifion. Roedd y rhif ffôn yn cael ei arddangos ar bwys y brif fynedfa ac fe'i rhoddid hefyd ar neges y peiriant ateb.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaeth yr holl gleifion a wnaeth gwblhau holiadur gadarnhau bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion cleifion a chanfod bod pob claf wedi rhoi cydsyniad i'w driniaeth.

Cadarnhaodd yr holl gleifion eu bod yn cael eu cynnwys i'r graddau yr oeddent yn dymuno mewn unrhyw benderfyniadau a wneid am eu triniaeth unigol.

Gwelsom dystiolaeth bod hanesion meddygol cleifion yn cael eu hadolygu a'u diweddarau ym mhob apwyntiad ar gyfer triniaeth.

Hawliau pobl

Gwnaethom nodi bod polisi cydraddoldeb penodol ar waith yn y practis.

Lleolir y practis ar y llawr daear, sy'n llawn hygyrch ar gyfer cleifion sydd ag anawsterau symudedd. Roedd defnyddwyr cadair olwyn yn gallu cael mynediad at y dderbynfa, y man aros, y cyfleusterau toiled a'r ystafell driniaeth.

Gwrando a dysgu o adborth

Nododd oddeutu hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn neu fynegi pryder ynghylch y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol.

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith er mwyn ymdrin â chwynion ac roedd hon wedi'i harddangos yn eglur yn y man aros. Fodd bynnag, nid oedd yr hysbysiad yn cynnwys yr amserlenni cywir ar gyfer ymateb i gwynion ac nid oedd yn cynnwys manylion cyswllt AGIC fel yr awdurdod cofrestru. Gwnaethom dynnu sylw'r practis at hyn, a chafodd y weithdrefn ei haddasu ar unwaith yn ystod ein hymweliad.

Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis system ar waith i gofnodi cwynion a phryderon ffurfiol ac anffurfiol. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion.

Gwnaethom drafod dull y practis ar gyfer casglu adborth gan y cleifion - mae'r practis yn cyflawni hyn trwy ddarparu holiaduron i'w cleifion yn y dderbynfa. Fe'n hysbyswyd ni gan y practis y cymerir camau gweithredu ar adborth a bod unrhyw welliannau'n cael eu rhoi ar waith ar unwaith. Gwnaethom gynghori'r practis i arddangos dadansoddiad o adborth cleifion, gan ddangos i gleifion fod eu hadborth unigol wedi cael ei gasglu ac y gweithredwyd arno er mwyn gwella dysgu a gwella'r gwasanaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Arddangos dadansoddiad o adborth cleifion yn y practis.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Canfuom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni'r rheoliadau a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Fodd bynnag, canfuom fod angen rhai gwelliannau yn yr ardal ddadheintio, ac i'r cyfarpar radiograffig a'r archwiliadau clinigol.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn, y tu mewn a'r tu allan. Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, gwelsom fod pob man yn lân ac yn daclus heb unrhyw beryglon amlwg.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol. Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd un toiled neillryw ar gael i'w ddefnyddio gan y cleifion a'r staff. Roedd arwyddion ar gyfer y cyfleuster ac roedd i'w weld yn lân iawn. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw fin gwastraff glanweithiol ar waith. Gwnaethom hefyd gynghori'r practis i sicrhau bod unrhyw finiau agored yn cael eu disodli gan finiau a weithredir â throed.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y dyfeisiau hyn yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod trwy'r adeilad ac roeddent yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd brys yn cael eu harddangos yn glir, ac roedd poster iechyd a diogelwch yn cael ei arddangos yn glir.

Gwnaethom nodi bod angen i lyfr damweiniâu'r practis gael ei ddisodli â llyfr 'Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus' (RIDDOR), sy'n cynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Canfuom fod yr holl gemegau yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd yr un yn cael ei adael mewn man cyhoeddus.

Roedd system ar waith yn y practis ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom hefyd fod yr holl wastraff wedi cael ei ddioli i'r bagiau/cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir.

Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod yr holl ddamweiniâu'n cael eu cofnodi mewn llyfr sydd wedi'i gymeradwyo o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR).

Sicrhau bod bin gwastraff glanweithiol yn cael ei roi yn y toiled ar gyfer staff, a newid unrhyw finiau am finiau a weithredir â throed.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd y cyfleuster yn lân iawn, wedi'i gyfarparu'n dda, ac yn rhydd rhag annibendod. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis i ail-selio'r arwyneb gwaith y tu ôl i'r sinc.

Dangosodd staff y broses ddadheintio inni a gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar ddadheintio. Nodwyd bod y tystysgrifau hyfforddiant yn cyfeirio at Femorandwm Technegol Iechyd (HTM) 01-05, sef yr hyn sydd gyfwerth â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn Lloegr. Gwnaethom dynnu sylw'r practis at hyn a'u cynghori i sicrhau bod yr holl hyfforddiant yn y dyfodol yn seiliedig ar Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Yn ystod yr arddangosiad o'r broses ddadheintio, cawsom wybod bod yr offerynnau weithiau'n cael eu codi o'r bowlen ddŵr i'w glanhau a'u rinsio o dan dŵr rhedegog oherwydd ewyn y glanedydd yn y bowlen. Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried defnyddio glanedydd heb ewyn a gwnaethom gynghori hefyd na ddylai'r offerynnau gael eu rinsio o dan ddŵr rhedegog.

Gwnaethom nodi nad oedd gan yr awtoclaf argraffydd sy'n cofnodi cylchredau sterileiddio'r offerynnau'n awtomatig. Cawsom wybod nad oedd profion sterileiddio dyddiol o'r awtoclaf yn cael eu cynnal cyn ei ddefnyddio i sterileiddio unrhyw offer. Gwnaethom argymhell bod y practis yn sicrhau y cynhelir profion dyddiol cyn defnyddio'r awtoclaf i ddangos ei fod wedi perfformio'n llwyddiannus. Gwnaethom gynghori'r practis hefyd i sicrhau bod yr holl offer mewn bagiau'n sych cyn eu sterileiddio.

Gwelsom fod offerynnau wedi cael eu bagio a'u dyddio gan nodi'r dyddiad dod i ben yn unig. Gwnaethom argymhell i'r practis y dylai'r dyddiad prosesu hefyd gael ei gynnwys ac y dylai unrhyw offerynnau heb eu lapio a heb eu defnyddio gael eu hailbrosesu ar ddiwedd y dydd.

Fe'n hysbyswyd ni gan y practis bod unrhyw argraffiadau'n cael eu dadheintio cyn eu hanfon i'r labordy deintyddol; fodd bynnag, nid ydynt yn cael eu dadheintio ar ôl iddynt gael eu dychwelyd o'r labordy. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ddadheintio holl waith y labordy pan fydd yn dod yn ôl.

Gwelsom fod y practis wedi cynnal rhai archwiliadau o'r arferion rheoli heintiau. Fodd bynnag, nid oedd y practis wedi defnyddio'r canllawiau a'r dull a gefnogir gan Ddeoniaeth Cymru.¹ Gwnaethom argymhell eu bod yn defnyddio'r dull hwn ar gyfer archwiliadau yn y dyfodol. Mae'r dull archwilio'n cyd-fynd â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, sef y safon ar gyfer arferion dadheintio a rheoli heintiau mewn deintyddfeydd yng Nghymru.

Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod yr arwyneb gwaith yn cael ei ail-selio y tu ôl i'r sinc yn yr ystafell ddadheintio.

Sicrhau bod yr awtoclaf yn cael ei brofi cyn ei ddefnyddio i sterileiddio unrhyw offerynnau.

Sicrhau bod offerynnau wedi'u bagio'n cael eu marcio â'r dyddiad y cawsant eu prosesu a'r dyddiad dod i ben.

¹ <https://www.walesdeanery.org/cy>

Sicrhau bod unrhyw offer wedi'u lapio a heb eu defnyddio'n cael eu hailbroseu ar ddiwedd y dydd.

Sicrhau bod yr holl waith labordy'n cael ei ddadheintio wrth iddo gael ei ddychwelyd i'r practis.

Sicrhau bod dull archwilio Deoniaeth Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer archwiliadau rheoli heintiau yn y dyfodol.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Mae'r practis hefyd yn ymarfer senarios argyfwng gyda'r staff yn rheolaidd sy'n arfer da. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi derbyn yr holl hyfforddiant perthnasol ac roedd yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd cyfredol. Roedd gan y practis swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio mewn lleoliad a oedd yn sicrhau eu bod ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn cwmpo/llewygu) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth bod system effeithiol ar waith i wirio'r offer a'r cyffuriau brys i sicrhau eu bod yn parhau i fod o fewn eu dyddiad dod i ben a'u bod yn barod i'w defnyddio. Fe wnaethom argymhell bod y practis yn cyflwyno system i fonitro tymheredd yr oergell gan sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd cywir.

Gwnaethom nodi hefyd bod y silindr ocsigen yn cael ei wirio'n ddyddiol sy'n arfer da. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell bod y practis yn disodli'r silindr maint presennol â'r maint ² CD. Gwnaeth y practis gytuno i wneud hyn. Gwnaethom hefyd argymhell bod y practis yn arddangos arwydd rhybudd nwy cywasgedig ar y drws lle mae'r silindr nwy. Gwelsom fod arwydd yn nodi lleoliad y diffibriliwr allanol awtomatig yn cael ei arddangos yn yr ystafell staff; fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylai'r arwydd diffibriliwr allanol awtomatig gael ei arddangos ar ddrws y ystafell staff.

²Dylai silindrau ocsigen fod yn faint lle gellir eu cludo'n hawdd, ond rhaid iddynt hefyd roi llif digonol (e.e. 15 l.mun-1) nes bod ambiwlans yn cyrraedd (e.e. mae silindr falf gyflawn maint 'CD' yn cynnwys 460 l o ocsigen a gall roi llif o 15 l.mun-1 am oddeutu 30 munud).

Gwnaethom hefyd darganfod bod y blwch argyfwng yn cynnwys menig latecs. Oherwydd bod alergedd latecs yn cynyddu ymhlith gweithwyr iechyd proffesiynol a'r cyhoedd, gwnaethom gynghori'r practis y dylai'r rhain gael eu disodli â menig nad ydynt yn latecs. Gwnaeth y practis hwn ar unwaith.

Yr hyn y mae angen ei wella

Cyflwyno system i fonitro tymheredd yr oergell.

Sicrhau bod arwydd rhybudd nwy cywasgedig yn cael ei arddangos ar ddrws yr ystafell staff ynghyd ag arwydd diffibriliwr allanol awtomatig.

Sicrhau bod y blwch cymorth cyntaf argyfwng yn cynnwys silindr ocsigen maint CD.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Canfuwyd gennym fod gan y practis bolisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. Gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, yn ystod ein trafodaethau gyda'r staff, roedd hi'n amlwg nad oedd holl aelodau'r tîm yn ymwybodol o sut i nodi unrhyw faterion diogelu posibl. Argymhellwn fod y practis yn adolygu'r hyfforddiant diogelu gan sicrhau bod yr holl staff yn y practis yn gallu nodi unrhyw faterion diogelu posibl.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod yr holl staff yn y practis yn meddu ar dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, nid oedd manylion y datgeliad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael i ni ei weld ar gyfer y prif ddeintydd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r holl staff yn y practis adnewyddu eu hyfforddiant o ran diogelu plant ac oedolion agored i niwed.

Anfon manylion tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd newydd y prif ddeintydd at AGIC.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar yr ystafell driniaeth a chanfod ei bod yn cynnwys yr offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom nodi bod yr ystafell triniaeth ddeintyddol wedi'i chynllunio a'i threfnu i helpu'r tîm i weithio'n

effeithlon, ac roedd yn amlwg yn lân iawn ac mewn cyflwr da. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell bod y practis yn ail-selio'r llawr ger y cabinetau.

Mae gan yr ystafell driniaeth ddau ddrws. Mae un drws yn cael ei ddefnyddio gan y claf i gyrraedd yr ystafell driniaeth ac mae un drws yn cael ei ddefnyddio gan y staff i gael mynediad i'r ystafell staff. Cawsom wybod bod y nyrs a'r deintydd yn sefyll y tu allan i ddrws yr ystafell staff wrth dynnu lluniau pelydr-x a gwnaethom nodi bod arwydd 'ardal a reolir' wedi cael ei arddangos yn yr ystafell staff. Fodd bynnag, nid oedd arwydd 'ardal a reolir' ar y drws a ddefnyddir gan gleifion sy'n arwain at yr ystafell aros. Gwnaethom argymhell bod y practis yn arddangos arwydd 'ardal a reolir' ar ddrws yr ystafell driniaeth ac ar yr ystafell Orthopantomogram i atal mynediad heb awdurdod pan fydd sganiau pelydr-X yn cael eu cynnal. Gwnaethom hefyd nodi bod drws yr ystafell driniaeth yn cynnwys clo mewnol a gwnaethom gynghori'r practis i ystyried defnyddio'r clo wrth gynnal sganiau pelydr-x.

Gwnaethom nodi nad oedd cyfanelwr petryalog³ ar y peiriant pelydr-X sy'n cyfyngu ar ddogyn yr ymbelydredd y mae'r claf yn ei dderbyn yn ystod sganiau pelydr-X deintyddol arferol.

Gwelsom hefyd fod y peiriant pelydr-X wedi cael ei adael ymlaen pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio. Yn ôl rheolau lleol, rhaid sicrhau bod y peiriant wedi'i ddiffodd pan nad yw'n cael ei ddefnyddio. Gwnaethom dynnu sylw'r practis at hyn a'u cynghori i sicrhau bod y peiriant pelydr-X yn cael ei ddiffodd pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

Gwelsom fod y peiriant pelydr-X a'r sganiwr OPG/CT wedi derbyn gwasanaeth a gwelsom y dogfennau cynnal a chadw. Fodd bynnag, roedd hi'n siomedig nodi nad oedd y practis wedi gweithredu'n llawn ar yr argymhellion. Gwnaethom dynnu sylw'r practis at hyn a chawsom wybod ar lafar y byddai'r camau gweithredu a nodir yn cael eu harchwilio a'u rhoi ar waith yn llawn.

Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio cyfredol ar gyfer y prif ddeintydd.

³Mae Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 yn argymhell defnyddio cyfanelwr petryalog i gyfyngu ar ddogyn ymbelydredd y mae claf yn ei dderbyn yn ystod sganiau pelydr-X deintyddol arferol.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod y practis wedi cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd blynyddol o ddelweddau pelydr-X.

Yr hyn y mae angen ei wella

Ailselio'r llawr ger y cabinetau yn yr ystafell driniaeth.

Sicrhau y caiff arwydd 'ardal a reolir' ei arddangos ar ddrws yr ystafell driniaeth a'r tu allan i'r ystafell OPG.

Sicrhau bod cyfanelwr petryalog yn cael ei osod ar y peiriant pelydr-X.

Sicrhau bod yr holl argymhellion gwirio cynnal a chadw ar gyfer y peiriant pelydr-X a'r sganiwr OPG/CT yn cael eu cynnal cyn gynted â phosibl.

Sicrhau bod archwiliadau sicrhau ansawdd delweddau pelydr-X yn cael eu cynnal.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Nid oedd gan y practis raglen ar waith ar gyfer cynnal amrediad eang o archwiliadau clinigol gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella. Gwnaethom argymhell bod y practis yn gweithredu rhaglen o archwiliadau trwy gydol y flwyddyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid cyflwyno amrediad o archwiliadau clinigol gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Cadarnhaodd y practis nad oeddent wedi defnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. Mae hwn yn ddull o hunanwerthuso sy'n galluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar sut maent yn gweithio ac sy'n galluogi'r practis i ystyried yr ansawdd a'r gofal a ddarperir mewn amrywiaeth o feysydd.

Fe'n hysbysodd y practis ni hefyd nad oedd adolygiad gan gymheiriaid o staff clinigol wedi cael ei gynnal yn y practis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Hunanwerthuso trwy ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.

Cyflwyno adolygiadau gan gymheiriaid clinigol.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei wneud yn rheolaidd ac roedd mynediad at y sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn breifat. Roedd polisi diogelu data ar waith.

Cadw cofnodion

Adolygwyd sampl o gofnodion cleifion wedi'u cwblhau gan y prif ddeintydd.

Ar y cyfan, roedd tystiolaeth bod y practis at ei gilydd yn cadw cofnodion clinigol da. Fodd bynnag, fe wnaethom nodi rhai meysydd roedd angen eu gwella mewn perthynas â'r nodiadau clinigol. Gwnaethom hefyd drafod gyda'r prif ddeintydd bwysigrwydd cofnodi'r archwiliadau periodontol sylfaenol gwaelodlin i gleifion a chofnodi sgrinio am ganser. Gwnaethom hefyd argymhell yn gryf bod y prif ddeintydd yn adolygu canllawiau'r Gymdeithas Beriodontol Brydeinig a hefyd adolygu'r canllawiau Darparu Gwell Iechyd y Geg.

Yr hyn y mae angen ei wella

Cofnodi archwiliadau peridontol sylfaenol gwaelodlin a sgrinio am ganser.

Y prif ddeintydd i adolygu canllawiau'r Gymdeithas Beriodontol Brydeinig a'r canllawiau Darparu Gwell Iechyd y Geg.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat a'r safonau proffesiynol perthnasol.

Gwnaethom nodi rhai gwelliannau angenrheidiol o ran llywodraethu a rheoli'r practis. Nid ymgwymerwyd ag unrhyw archwiliadau na gwiriadau sicrhau ansawdd. Ni welsom unrhyw dystiolaeth o gyfarfodydd tîm ffurfiol nac arfarniadau staff yn cael eu gweithredu yn y practis.

Fodd bynnag, roedd y tîm o staff i'w gweld yn hapus iawn yn eu rolau ac roeddent yn gymwys wrth gynnal eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau ac yn meddu ar ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i'w cleifion.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd sy'n gyfrifol am weithrediad cyffredinol y practis o ddydd i ddydd a chanfuom rai gwelliannau yr oedd eu hangen o ran llywodraethu a rheoli. Er bod gweithrediad y practis o ddydd i ddydd wedi'i ategu gan amrywiaeth o weithdrefnau clinigol, nid oedd unrhyw brosesau sicrhau ansawdd i sicrhau y cedwid at y polisiâu hyn. Rydym yn gwybod hyn oherwydd nid oeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny'n gyson wrth edrych ar amrywiaeth o gofnodion a pholisiâu.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Gwelsom rai ffolderi ymsefydlu staff ac ar y cyfan roedd y rhain wedi'u trefnu'n dda. Fodd bynnag, nid oedd yr holl dystysgrifau hyfforddiant yn hawdd eu cyrraedd ar gyfer holl aelodau'r tîm. Gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod yr holl wybodaeth bersonol a'r tystysgrifau hyfforddiant perthnasol yn cael eu cadw mewn ffeiliau unigol staff yn y practis, a bod system yn cael ei rhoi ar

waith i fonitro'u cofnodion hyfforddiant Datblygu Proffesiynol Parhaus a chytunodd y practis i wneud hyn.

Fe'n hysbyswyd ni bod y tîm yn cwrdd yn anffurfiol yn rheolaidd i drafod unrhyw broblemau. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnodion o'r cyfarfodydd hyn wedi cael eu cadw a gwnaethom argymhell i'r practis y dylai'r holl gyfarfodydd tîm, rhai ffurfiol ac anffurfiol, gael eu cofnodi. Cawsom wybod hefyd nad oedd unrhyw arfarniadau staff wedi cael eu cynnal.

Gwelsom fod y dystysgrif gofrestru gydag AGIC wedi cael ei harddangos yn yr ardal aros, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. Fodd bynnag, roedd y dystysgrif yn cynnwys y cyfeiriad anghywir ar gyfer AGIC. Gwnaethom gynghori'r practis i gysylltu â'r Tîm Cofrestru yn AGIC er mwyn iddynt ddyroddi copi newydd o'r dystysgrif.

Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwnedd Hepatitis B yr holl staff sy'n gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith, a chanfuom eu bod yn adlewyrchu arferion gwirioneddol. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod nad oedd yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cynnwys dyddiad adolygu a/neu nid oedd y fersiynau'n cael eu rheoli. Gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cynnwys dyddiad adolygu a/neu reolaeth dros wahanol fersiynau, ac y dylai sicrhau bod yr holl staff yn llofnodi'r polisïau a gweithdrefnau i ddangos eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Canfuom fod y practis yn arddangos ei fanylion cyswllt brys a'i oriau agor ar fynedfa'r adeilad. Roedd enw a chymwysterau'r deintydd hefyd yn cael eu harddangos yn glir.

Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod holl ffolderi personél staff yn cael eu cadw yn y practis, eu bod yn drefnus ac yn cynnwys yr holl dystysgrifau a'r cofnodion DPP perthnasol.

Sicrhau bod holl gyfarfodydd y tîm yn cael eu cofnodi'n ffurfiol.

Sicrhau bod yr holl staff yn derbyn arfarniadau blynyddol.

Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, eu bod yn cynnwys dyddiadau adolygu a/neu fod y fersiynau'n cael eu rheoli, a'u bod yn cael eu llofnodi gan staff.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon dybryd yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rydym yn rhoi rhybudd cyn cynnal arolygiad o bractis deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei roi i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n ategu dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd unrhyw ddeintydd yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a [gwasanaethau gofal iechyd annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Cader

Dyddiad yr arolygiad: 24 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion a oedd yn gofyn am sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Cader

Dyddiad yr arolygiad: 24 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Arddangos dadansoddiad o adborth cleifion yn y practis.	Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Adran 2.1	Rydym wedi penderfynu llunio siartiau bob chwarter i arddangos ein hadborth gan gleifion.	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Cwblhawyd
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Sicrhau bod yr holl ddamweiniau'n cael eu cofnodi mewn llyfr sydd wedi'i gymeradwyo o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR).	Yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch	Mae llyfr damweiniau/ Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus cymeradwy newydd yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch wedi cael ei brynu er mwyn cofnodi damweiniau neu	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ddigwyddiadau yn y modd cywir.		
Sicrhau bod bin gwastraff glanweithiol yn cael ei roi yn y toiled ar gyfer staff, a newid unrhyw finiau am finiau a weithredir â throed.	Rheoliadau'r Gweithle 1992 (Iechyd, Diogelwch a Lles)	Mae biniau gwastraff glanweithiol â synhwyrdd wedi cael eu rhoi yn y ddwy ystafell ymolchi, ac mae biniau agored wedi cael eu disodli â biniau a weithredir â phedal troed lle y bo angen.	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Cwblhawyd
Sicrhau bod arwyneb yr wynebau gwaith yn cael ei ail-selio y tu ôl i'r sinc yn yr ystafell ddadheintio.	Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05	Mae'r wyneb gwaith yn yr ystafell ddadheintio wedi cael ei ail-selio.	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Cwblhawyd
Sicrhau bod yr awtoclaf yn cael ei brofi cyn ei ddefnyddio i sterileiddio unrhyw offer.	Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05	Fel y trafodwyd gydag un o'r arolygwyr, caiff yr awtoclaf ei brofi ar y cylchred cyntaf bob dydd a gwnaethom gytuno pe na bai'n ddigonol y byddai'r cylchred yn cael ei ailadrodd. Mae'r awtoclaf yn cofnodi ei ddarlleniadau'n awtomatig ac mae hefyd yn argraffu. Mae hyn yn cynnwys tymereddau ac amserau.	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Cwblhawyd
Sicrhau bod yr holl offer sydd wedi'u bagio yn cael eu dyddio â'r dyddiad prosesu a'r dyddiad dod i ben.	Memorandwm Technegol Iechyd Cymru	Rydym bellach yn nodi'r dyddiad sterileiddio ar y pecynnau yn ogystal â'r dyddiad dod i ben. Mae'r holl offer sydd wedi'u hagor neu heb eu lapio'n cael eu	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Sicrhau bod unrhyw offer heb eu lapio a heb eu defnyddio'n cael eu hailbroseu ar ddiwedd y dydd.	01-05	hailstireleiddio ar ddiwedd y diwrnod gwaith.		
Sicrhau bod yr holl waith labordy'n cael ei ddadheintio wrth iddo gael ei ddychwelyd i'r practis.	Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05	Mae holl waith y labordy'n cael ei ddadheintio cyn ei anfon ac mae'n cael ei ddadheintio wrth iddo gael ei ddychwelyd i'r practis.	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Cwblhawyd
Sicrhau bod dull archwilio Deoniaeth Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer archwiliadau rheoli heintiau yn y dyfodol.	Deoniaeth Cymru	Byddwn yn dechrau defnyddio dull archwilio Deoniaeth Cymru wrth gynnal ein harchwiliadau yma yn y practis. Bydd hyn yn ein helpu i gymharu ag arferion da sefydledig.	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Un mis Ionawr 2018.
Cyflwyno system i fonitro tymheredd yr oergell.	Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05	Prynwyd oergell newydd. Mae thermomedr wedi cael ei roi yn yr oergell ac mae'r tymheredd yn cael ei gofnodi'n ddyddiol.	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Cwblhawyd
Sicrhau bod arwydd rhybudd nwy cywasgedig yn cael ei arddangos ar ddrws yr ystafell staff ynghyd ag arwydd diffibriliwr allanol awtomatig.	Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05	Rydym yn y broses o brynu arwyddion ar gyfer y diffibriliwr allanol awtomatig a nwy ychwanegol.	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Un mis Ionawr 2018.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Sicrhau bod y pecyn argyfwng yn cynnwys silindr ocsigen maint CD.	Cyngor Dadebru y DU	Mae silindr ocsigen maint CD newydd wedi'i brynu.	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Cwblhawyd
Yr holl staff yn y practis i adnewyddu eu hyfforddiant o ran diogelu plant ac oedolion agored i niwed.	Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.3.3, 8.5	Yn aros am argaeledd cwrs priodol gan Ddeoniaeth Cymru.	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Yn parhau.
Anfon manylion tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd newydd y prif ddeintydd at AGIC.	Rheoliad 13 (3) (c) Atodlen 2	Mae'r prif ddeintydd wedi e-bostio manylion y datgeliad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i AGIC.	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Cwblhawyd
Ailselio'r llawr ger y cabinetau yn yr ystafell driniaeth.	Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05	Mae llawr cyfan yr ystafell driniaeth wedi cael ei ail-selio gan ddefnyddio dull cynhesu arbennig.	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Cwblhawyd
Sicrhau bod arwydd 'ardal a reolir' yn cael ei arddangos ar ddrws yr ystafell driniaeth a'r tu allan i'r ystafell OPG.	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (RhYI(DM))	Mae arwyddion 'Ardal a reolir' bellach wedi'u gosod y tu allan i'r ystafell driniaeth a'r ystafell OPG.	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	2000			
Sicrhau bod cyfanelwr petryalog yn cael ei osod ar y peiriant pelydr-X.	RhYİ(DM) 2000	Anfonwyd cais i'r holl gwmnïau perthnasol ynghylch y rhan hon o'r peiriant pelydr-X.	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Yn parhau.
Sicrhau bod yr holl argymhellion gwirio cynnal a chadw ar gyfer y peiriant pelydr-X a'r sganiwr OPG/CT yn cael eu cynnal cyn gynted â phosibl.	RhYİ(DM) 2000	Caiff yr holl waith cynnal a chadw ac unrhyw argymhellion a wnaed eu cynnal ar gyfer y ddau beiriant a byddant yn bodloni'r safonau a nodir gan RhYİ(DM) 2000	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Yn parhau.
Sicrhau bod archwiliadau blynyddol o ansawdd delweddau pelydr-X yn cael eu cynnal.	Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Adran 2.23	Byddwn yn dechrau cynnal adolygiadau sicrhau ansawdd o unrhyw archwiliadau pelydr-X a gwblheir.	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Un mis Ionawr 2018.
Dylid cyflwyno amrediad o archwiliadau clinigol gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2008	Mae archwiliadau clinigol eisoes yn cael eu cynnal - fodd bynnag, byddwn yn dechrau defnyddio dull archwilio Deoniaeth Cymru. Byddwn yn nodi meysydd i'w gwella ac yn penderfynu ar y ffyrdd gorau i oresgyn unrhyw broblemau a allai godi.	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Un mis Ionawr 2018.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Hunanwerthuso trwy ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.	Deoniaeth Cymru	Rydym wedi edrych ar y Matrics Aeddfedrwydd ar wefan Deoniaeth Cymru a byddwn yn hunanwerthuso gan ddefnyddio'r dull hwn.	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Un mis Ionawr 2018.
Cyflwyno adolygiadau gan gymheiriaid clinigol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2008	Mae ceisiadau wedi cael eu hanfon at bractisau gerllaw, ac rydym yn aros am ymateb.	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Yn parhau nawr bod ceisiadau wedi cael eu hanfon.
Cofnodi gwaelodlin archwiliadau periodontol sylfaenol a sgrinio ar gyfer canser.	Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol	Cofnodir archwiliadau periodontol sylfaenol gwaelodlin yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Rhoddir gwybod i'r claf ar unwaith am unrhyw feinwe meddal anarferol a chymerir camau gweithredu ar unwaith trwy atgyfeirio i ofal eilaidd.	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Yn parhau.
Y prif ddeintydd i adolygu canllawiau Cymdeithas Beriodontol Prydain a'r canllawiau Darparu Gwell Iechyd y Geg.	Canllawiau Cymdeithas Beriodontol Prydain; canllawiau Cyflawni Gwell	Mae'r Prif Ddeintydd wedi dechrau darllen cyfnodolion sy'n cynnwys diweddariadau diweddar y Gymdeithas Beriodontol, sy'n helpu i ddarparu cyngor gwell ynghylch iechyd y geg i'n cleifion.	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Wedi dechrau ac yn parhau.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Iechyd y Geg.			
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Sicrhau bod holl ffolderi personél staff yn cael eu cadw yn y practis, eu bod yn drefnus a'u bod yn cynnwys yr holl dystysgrifau hyfforddiant a'r cofnodion DPP perthnasol.	Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol	Mae ffolder bersonol wedi cael ei chreu ar gyfer pob aelod o dîm y practis i gadw'r holl ddogfennau gyda'i gilydd ac yn drefnus.	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Cwblhawyd ac yn parhau.
Sicrhau bod yr holl gyfarfodydd tîm yn cael eu cofnodi a'u logio'n ffurfiol.	Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6	Cymerir cofnodion bellach ym mhob cyfarfod tîm ac maent yn cael eu logio, eu llofnodi a'u dyddio fel tystiolaeth o bresenoldeb a dealltwriaeth.	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Cwblhawyd ac yn parhau.
Sicrhau bod yr holl staff yn derbyn arfarniadau ffurfiol blynyddol.	Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6	Caiff arfarniadau blynyddol eu rhoi ar waith ar gyfer pob aelod o staff y practis.	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Un mis Ionawr 2018.
Sicrhau bod yr holl bolisiâu a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, eu bod yn cynnwys dyddiadau adolygu a/neu fod y fersiynau'n cael eu rheoli, a'u bod yn cael eu llofnodi gan staff.		Mae polisiâu a gweithdrefnau'r practis wedi cael eu darllen gan bob aelod o dîm y practis, wedi'u llofnodi a'u dyddio fel tystiolaeth o ddealltwriaeth ac mae'r staff yn barod i adolygu pob polisi'n rheolaidd.	Dr Uday Georgis BDS, MSc	Cwblhawyd ac yn parhau.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Uday Georgis, BDS, MSc

Swydd: Prif Ddeintydd

Dyddiad: 13/12/2017